

## **Stryd Fawr Abertawe: prosiect newydd i hel atgofion am ei hanes bywiog**

Mae prosiect newydd ar y cyd wedi'i lansio i archwilio a dathlu hanes cyfoethog un o strydoedd mwyaf adnabyddus Abertawe sef y Stryd Fawr.

Wedi'i arwain gan **Music Art Digital Swansea** a'i gefnogi gan **Raglen Cymunedau Cysylltiedig Prifysgol Abertawe a Chronfa Treftadaeth y Loteri**, bydd prosiect hanes llafar *Swansea Scenes* yn canolbwyntio ar ddatgelu a dogfennu hanes y cymunedau sydd wedi defnyddio ardaloedd cymdeithasol y Stryd Fawr ers y 1800au - o neuaddau cerddoriaeth a'r sinema gyntaf yng Nghymru, i'r clwb cyntaf yng Nghymru ar gyfer pobl hoyw a thafarnau sy'n cynnig cerddoriaeth fyw.

Caiff atgofion a deunyddiau a gesglir gan brosiect *Swansea Scenes* eu manylu mewn ffilm ddogfen, archif digidol ac rhith-amgueddfa wedi'u lleoli mewn nifer o leoliadau ar draws y ddinas. Defnyddir y dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu cynnwys digidol i ardaloedd sy'n gysylltiedig ag ardal ddaearyddol benodol.

### **Bydd y prosiect yn cynnwys rhai o adeiladau mwyaf adnabyddus y Stryd Fawr:**

Adeiladwyd **Theatr y Palas** sy'n adeilad rhestredig Gradd II yn 1888 a chroesawodd bobl megis Charlie Chaplin a Morecambe and Wise. Yn 1960 ymddangosodd enillydd gwobr Oscar, Syr Anthony Hopkins, ar y llwyfan am y tro cyntaf erioed yn Theatr y Palas. Mae gan yr adeilad eiconig hanes brith wrth iddo gael ei ddefnyddio fel theatr, sinema, marwly dros dro yn ystod y Blitz, clwb nos i bobl hoyw, neuadd bingo a chlwb dawnsio yn ystod y 1990au. Hwn oedd y lleoliad cyntaf yn Abertawe i ddangos lluniau symudol.

Agorodd **Adeilad Elysium** yn 1914 fel sinema ar un lefel a chlwb ar gyfer gweithwyr y dref ar lefel arall. Roedd yn cynnwys ystafell ddawns ac ystafell ddarllen i fenywod. Caewyd y sinema yn 1960 a chaewyd yr adeilad cyfan yn 1994. Mae'n parhau i fod yn adfeiliedig hyd heddiw.



Defnyddiwyd **Gwesty'r Bush** sef adeilad rhestredig Gradd II Sioraidd gan Oliver Cromwell yn yr 17eg Ganrif ar ôl rasio ceffylau yn Nhwyni Crymlyn. Yn 1804 cynhaliodd fuddsoddwyr gyfarfod yn y Bush i drafod sefydlu trên y Mwmbwls a dywedir mai honno oedd y dafarn olaf yn Abertawe lle yr yfodd Dylan Thomas cyn iddo adael am Unol Daleithiau America. Erbyn hyn mae'r adeilad wedi'i ddymchwel.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrosiect Cymunedau Cysylltiedig, nod *Swansea Scenes* fydd hyfforddi tîm craidd o 15 o wirfoddolwyr lleol mewn treftadaeth, hanes llafar, gwneud ffilmiau, a dylunio a datblygu digidol.

Mae prosiect *Swansea Scenes* yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cysylltiedig sy'n ymchwilio a dathlu hanes cymunedau ar draws Cwm Tawe ac mae wedi'i ddatblygu gan Sefydliad Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r adran Hanes ym Mhrifysgol Abertawe.